

DAFYDD BENFRAS (fl. 1230-60), bardd

Enw: Dafydd Benfras
Rhiant: Llywarch ap Llywelyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Thomas Parry

Enw ei dad oedd Llywarch, a Môn oedd ei gartref. Canodd fawl i [Llywelyn ab Iorwerth](#), a marwnad iddo (1240). Canodd farwnadau hefyd i [Ruffudd ap Llywelyn](#) (1244) a [Dafydd ap Llywelyn](#) (1246). Yn fuan wedi i [Llywelyn ap Gruffudd](#) gychwyn ar ei ymgyrchoedd yn erbyn ei frawd [Owain](#) yn 1255 ac yn erbyn Saeson y Berfeddwlad yn 1256, cawn Ddafydd Benfras yn canu iddo yntau, a cheir cyfeiriadau yn ei awdlau at rai o fuddugoliaethau cynnar [Llywelyn](#), megis ei gyrch i Geredigion yn 1256, ac i Gemais yn Nyfed ac i Forgannwg yn 1257. Dywaid y bardd ei fod yn bencerdd i [Llywelyn](#). Ceir un gerdd o'i waith i [Ruffudd ab Ednyfed \(Fychan?\)](#). Canwyd marwnad i Ddafydd Benfras gan [Fleddyn Fardd](#), ac yn ôl honno ei ladd a gafodd, a hynny yn y Deheubarth, a'i gladdu yn Llangadog.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (1931), 289

The Myvyrian archaiology of Wales (Denbigh 1870), 217-25

The Poetry in the Red Book of Hergest (Llanbedrog 1911), 1911, col. 1381, 1384

Llawysgrif Hendregadredd (1933), 1933, 181, 191

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dafydd Benfras](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3331168](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

